Ysgol Cybi

Ffordd Garreglwyd, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1NS www.ysgolcybi.com 01407 883150 Pennaeth / Headteacher: Mr O L Roberts

Annwyl Rieni,

Ga'i estyn croeso cynnes i chi yn rieni a phlant, i flwyddyn addysgol newydd yma yn Ysgol Cybi. Croeso arbennig i blant newydd y dosbarth Meithrin ac hefyd i sawl aelod o staff newydd sydd wedi ymuno gyda ni mis Medi – manylion i gyd i'w gweld ar wefan yr ysgol.

Gwybodaeth Bwysig Cychwyn Blwyddyn Addysgol Newydd

Manylion Personol: Mae hi'n hynod o bwysig eich bod yn ein diweddaru ni gydag unrhyw wybodaeth bersonol newydd ydych chi'n ystyried yn berthnasol e.e. newid cyfeiriad, rhif ffon, alergeddau….

Presenoldeb a Prydlondeb: Mae dysgu plant o oedran cynnar o bwysigrwydd presenoldeb dyddiol ac i barchu'r angen i fod ar amser, yn hynod o bwysig. Mae digonedd o dystiolaeth i ddangos bod plant a phobl ifanc sydd wedi datblygu'r arfer o fod yn falch o'i presenoldeb uchel ac yn brydlon bob dydd yn mynd yn eu blaenau i berfformio'n well yn yr ysgol ac hyd yn oed mewn gwaith wedi iddyn nhw dyfu. Mae'r giatiau yn agor 8:50am ac yn cau'n brydlon am 9:00am. Os yw eich plentyn yn wirioneddol sâl, cysyllwch i hysbysu'r ysgol am absenoldeb yn defnyddio'r **SCHOOL GATEWAY APP.**

Casglu Plant: Os yw eich plentyn ym Mlwyddyn 3, 4, 5 neu 6 a'ch bod yn teimlo bod eich plentyn yn ddigon aeddfed a chyfrifol, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud cais am PAS CERDDED, fel y gall ef/hi gerdded i'ch cyfarfod (e.e. eich cyfarfod chi yn Maes Parcio Millbank , neu ardal arall a drefnwyd) neu gerdded yn syth adref.

Fel bod pawb yn gadael yn ddiogel ac mor drefnus a phosibl gofynnir yn garedig ….

- Rhieni sy'n dewis casglu eu plant i aros yn y mannau penodol ar yr iard (map – edrychwch allan am rif y dosbarth)
- Gofynnir i ddisgyblion beidio fynd ar gefn ei beiciau na'i sgwteri ar iard yr ysgol.
- Bydd athrawon yn arwain y disgyblion i'r ardaloedd canlynol ar iard yr ysgol (map). Bydd plant sydd yn dal PAS CERDDED yn cael eu rhyddhau yn gyntaf, yna byddant yn rhyddhau'r plant sy'n weddill yn raddol ac yn ddiogel i'ch gofal.
- Ni ddylai disgyblion ddefnyddio'r wal ddringo a'r llithren yn ystod y cyfnod hwn. Sicrhewch eich bod yn goruchwylio eich plant yn ystod y cyfnod prysur iawn hwn.

Parcio: Os oes yn rhaid defnyddio car er mwyn cludo a casglu plant o'r ysgol, ga'i ofyn o'r cychwyn cyntaf fod pob rhiant yn ein helpu i gadw ein safle mor ddiogel a phosibl drwy barcio yn **Maes Parcio Millbank** yn unig os gwelwch yn dda. Anogir rieni disgyblion Blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 i ystyried gwneud cais am **BAS CERDDED** i'ch plentyn, os ydych chi'n teimlo bod eich plentyn yn ddigon aeddfed a chyfrifol.

Clwb Gofal a Brecwast Ysgol Cybi: Gofynnir yn garedig iawn i chi wneud yn siwr eich bod yn bwcio lle i'ch plentyn ddiwrnod o flaen llaw os am ddefnyddio'r Clwb Gofal neu Brecwast.

Clwb Gofal: 8:00am – 8:15am	Pris: £1.25
Clwb Brecwast: 8:25am – 8:35am	AM DDIM

Cinio Ysgol: Mae cinio ysgol am ddim i bob disgybl o'r Dosbarth Derbyn i Blwyddyn 5 ar hyn o bryd. Bydd hynny yn cael ei ymestyn fel bod bob disgybl sector Gynradd yn cael cinio am ddim o'r 11/9/23 ymlaen – mae llythyr pellach i ddilyn i flwyddyn 6 ddiwedd yr wythnos. Byddwn yn parhau i rannu bwydlen cinio ysgol y darparwr allanol (Chartwells) bob hanner tymor.

Ysgol Iach a Poteli Dŵr*:* Mae addysgu'r plant a'n gilydd am bwysigrwydd bwyta'n iach yn rhan o gyfrifoldeb pob ysgol ac hynny'n cynnwys hyrwyddo ac arddel yr arferion hyn tra yn yr ysgol. Anogir disgyblion i ddod a poteli dŵr llawn gyda nhw yn ddyddiol. Gofynnir i rieni ein cefnogi ni drwy sicrhau fod pecynau bwyd ac unrhyw fyrbrydau yn rhai iachus.

Ysgol Ymwybyddiaeth Cnau: Mae sawl disgybl ac aelod o staff yn dioddef o alergedd cnau yma yn Ysgol Cybi, sydd yn medru bod yn risg sylweddol iawn i iechyd. Rydyn ni'n gofyn i rieni beidio darparu cynnyrch a chnau ynddyn nhw i'w plant ddod i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys 'peanut butter', Nutella ac unrhyw gynnyrch arall allai gynnwys unrhyw fath o gnau.

Ci Cybi: Bydd Twm ci Ysgol Cybi yn dychwelyd atom ni wythnos nesaf. Mae Twm yn gi addfwyn wedi'i hyfforddi'n ofalus ac roedd yn boblogaidd iawn gyda pob disgybl (staff a rhieni!) flwyddyn diwethaf. Os oes unrhyw rieni yn bryderus neu eisio gofyn ambell gwestiwn yna cysylltwch gyda'r ysgol am sgwrs.

Gwaith Cartref: Byddwn yn cadw'n dynn at yr un trefniadau Gwaith Cartref flwyddyn yma gyda'r egwyddor y dylai Gwaith Cartref gefnogi sgiliau sylfaenol a bod yn rhwydd i rieni helpu gyda fo. Gweler gwybodaeth bellach ar wefan yr ysgol https://www.ysgolcybi.cymru/cy/disgyblion/gwaith-cartref

Gwisg Ysgol*:* Gwnewch yn siwr fod POB DILLEDYN wedi'i labelu'n eglur os gwelwch yn dda.

Oriau Gwaith Staff Dysgu: Mae gwybodaeth bellach am ddulliau cyfathrebu gyda'r ysgol ar ddiwedd y llythyr yma. Bydd athrawon dosbarth yn gwneud pob ymdrech i ddarllen ac ymateb i unrhyw negeseuon gennych chi dros CLASS DOJO rhwng 8:30am ac 4:30pm yn unig. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu bod hynny yn digwydd yn ddyddiol a gall gymryd ychydig o ddyddiau i chi dderbyn ymateb. Cofiwch bod modd i chi rannu wybodaeth neu sgwrsio gyda staff dysgu y dosbarth wrth gasglu plant ar ddiwedd y diwrnod ysgol neu gysylltu yn uniongyrchol gyda'r ysgol drwy SCHOOL GATEWAY neu drwy ffonio'r ysgol (01407 883150).

Ysgol Cybi
Ffordd Garreglwyd, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1NS www.ysgolcybi.com 01407 883150 Pennaeth / Headteacher: Mr O L Roberts

Cyfathrebu Rhagorol - Ysgol Cybi - Excellent Communication

Dulliau Cyfathrebu Ysgol Cybi Ysgol Cybi's Communication Tools		Dyma pam ydyn ni'n eu defnyddio nhw.... This is why we use them.....
School Gateway App		**App HANFODOL – LAWRLWYTHWCH YN SYTH** ***ESSENTIAL App – DOWNLOAD IMMEDIATELY*** **Bydd yr ysgol** yn ei ddefnyddio i yrru negeseuon byr, sydyn i chi am ddigwyddiadau dosbarth ac ysgol. **Gall rhieni** ei ddefnyddio i hysbysu am absenoldeb, gyrru negeseuon, bwcio clybiau ac i yrru taliadau i'r ysgol. ***The school** use it to send you short, quick messages about classroom and school events.* ***Parents** can use it to send messages, report absences, book school clubs and send payments.*
School Gateway Text		**Bydd yr ysgol** yn defnyddio text os nad oes fodd i chi ddefnyddio'r app yn unig. (Mae hwn yn DDRUD, a'r app yn gwneud yr un peth AM DDIM!). ***The school** will only use text if you're unable to use the app. (Text is EXPENSIVE, the app does the same thing FREE!)*
School Gateway Ebost / Email		***Pwysig – HYSBYSWCH NI O'CH EBOST*** ****Important – INFORM US OF YOUR EMAIL**** **Bydd yr ysgol** yn ei ddefnyddio yn aml i rannu negeseuon hirach ysgol gyfan yn cynnwys atodiadau. **Gall rhieni** yrru ebost yn syth i Swyddfa'r ysgol. ***The school** uses emails often to share longer whole school messages including attachments.* ***Parents** are able to send an email directly to the school office*
Facebook Ysgol Cybi		**Bydd yr ysgol** yn rhannu popeth posibl sydd yn mynd allan yn gyntaf drwy ebost yr ysgol, hefyd ar 'Facebook Ysgol Cybi'. **(****Byddwch yn ofalus peidio drysu 'Facebook Rhieni Cybi' a cyfri 'Facebook Ysgol Cybi'**) ***The school** will share all possible information that's sent by email, on 'Facebook Ysgol Cybi' also. **(*****Be careful not to confuse the parents' 'Facebook Rhieni Cybi' with the School's official 'Facebook Ysgol Cybi'**)*
Gwefan Ysgol Cybi Website		**Bydd yr ysgol** yn defnyddio'r wefan i gadw a chyflwyno gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol ac i rannu rhai dogfennau ydyn ni'n ystyried yn berthnasol i rieni a'r cyhoedd. ***The school** will use the website to present basic information about the school and to share some documents we consider to be relevant to the public and parents.*
Class Dojo Ysgol Cybi	ClassDojo	**Bydd yr ysgol** yn parhau i ddefnyddio 'Class Dojo' er mwyn sicrhau'r berthynas orau rhwng rhieni, plant a staff dosbarth. **Gall rhieni** gysylltu gyda athrawon dosbarth yn uniongyrchol, a byddant yn cael blas o'r hyn sydd yn mynd ymlaen. ***The school** will continue to use 'Class Dojo', ensuring the very best relationship between parents, pupils and class staff.* ***Parents** will be given a taste of what's going on and also be able to contact class teachers directly.*

Mae Schoolgateway yn gweithio'n wych!!!

Defnyddiwch Schoolgateway i gysylltu gyda'r ysgol am unrhyw reswm o gwbl.
(Plis peidiwch a defnyddio 'Facebook Ysgol' i gysylltu a ni – diolch)

Schoolgateway works brilliantly!!!

If you want to contact the school for any reason, please use Schoolgateway.
(Please don't use 'School Facebook' to contact us – thanks)

SUT I FYND ATI? // HOW TO GUIDE?

(1) Ar ôl ei lawrlwytho dewiswch ddefnyddiwr newydd *// Once downloaded simply select new user*
(2) Rhowch eich cyfeiriad e-bost a'ch Rhif ffôn symudol *// Enter your email address and mobile number*
(3) Derbyn PIN a mewngofnodi i Borth yr ysgol *// Receive a pin and login to the school gateway*

Unrhyw broblemau, dim ond galw! - *Any problems, just call!*

.....

GWYBODAETH CYSWLLT ALLWEDDOL – *KEY CONTACT INFO*

I hyn weithio'n dda, gwnewch yn siwr eich bod yn rhannu unrhyw newid i'ch wybodaeth cyswllt **YN SYTH** //
*For this to work well, please make sure you share any changes to contact details **IMMEDIATELY.***

DO WE HAVE YOUR CURRENT KEY CONTACT INFO??

YDI EICH WYBODAETH CYSWLLT ALLWEDDOL CYFREDOL GENNYN NI??

***E-Mail* // E-bost**	***Mobile* // Symudol**	***Address* // Cyfeiriad**

Mr Owain L Roberts (Pennaeth Ysgol Cybi)

Ysgol Cybi

Ffordd Garreglwyd, Caergybi, Ynys Môn, LL65 1NS www.ysgolcybi.com 01407 883150 Pennaeth / Headteacher: Mr O L Roberts